

Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

Adroddiad

CYNLLUN
CYNORTHWYO
GWAED HEINTIEDIG
CYMRU

ADRODDIAD
BLYNYDDOL
2020/2021

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNLLUN CYNORTHWYO GWAED HEINTIEDIG CYMRU 2020/2021

YMDDIRIEDOLAETH GIG PRIFYSGOL FELINDRE
TRWY

BARTNERIAETH CYDWASANAETHAU GIG
CYMRU

YNGHYD Â
CHANOLFAN GANSER FELINDRE



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership



Canolfan Ganser Felindre
Velindre Cancer Centre



Cynllun Cynorthwyo Gwaed
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood
Support Scheme

Cynnwys

4

Cyflwyniad

5

Diben yr
adroddiad

6

Materion
Allweddol a
Gododd yn Ystod
2020-21

9

Grŵp
Llywodraethu

11

Cymorth
Ariannol

14

Gwasanaeth
Hawliau Lles

16

Gwasanaeth
Seicoleg a
Llesiant
Emosiynol

18

Gweithgaredd
Buddiolwyr
2020-21

19

Cyfraddau
Taliadau 2020-
21

20

Strwythur Cynllun
Cynorthwyo Gwaed
Heintiedig Cymru

21

Adroddiad Cyllid

23

Adroddiad
Perfformiad

25

Cynllun Grantiau
Cymorth a
Chynorthwyo

26

Edrych Ymlaen
2021-2022

Cyflwyniad

Wedi'i sefydlu ym mis Hydref 2017, mae Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) yn darparu cefnogaeth i bobl sydd wedi'u heintio â Hepatitis C a/neu HIV yn dilyn triniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG.

Gan gymryd yr awenau oddi wrth gynlluniau presennol y DU (Ymddiriedolaeth Eileen, Ymddiriedolaeth Macfarlane, MFET Ltd, Skipton Fund a'r Caxton Foundation), y cyfeirir atynt bellach fel Sefydliadau Alliance House (AHOs), nod Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yw darparu gwasanaeth talu ariannol symlach a chymorth personol i fuddiolwyr Cymru. Mae Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn cynnig Gwasanaeth Hawliau Lles a Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant pwrpasol.

Mae Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru ar hyn o bryd yn cefnogi 213 o fuddiolwyr, gan gynnwys gŵyr a gwragedd a phartneriaid mewn profedigaeth. Fodd bynnag, darperir y cymorth lles a seicolegol i aelodau ehangach teuluoedd ein buddiolwyr.



Diben yr Adroddiad

Diben yr adroddiad hwn yw:

- **rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaethau cyllid a chymorth yn ystod 2020-21 fel rhan o Gynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru;**
- **manylu ar y gwaith a wnaed gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru 2020-21;**
ac
- **edrych ymlaen at flaenoriaethau Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru sy'n ymwneud â 2021-22.**

Materion allweddol a gododd yn ystod 2020-21

COVID-19 – Y Pandemig

Ym mis Mawrth 2020, aeth y DU i mewn i'r cyfnod clo cyntaf, o ganlyniad i bandemig bydeang COVID-19. Dywedwyd wrth bawb a allai weithio gartref i wneud hynny, gan gynnwys staff Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. Gwnaethpwyd y newid hwn yn llwyddiannus a gweithredwyd ar sail "busnes fel arfer".

Parhawyd i wneud taliadau rheolaidd a chynnig cymorth a chefnogaeth i'n holl fuddiolwyr, llawer ohonynt yn cysgodi o ganlyniad i'w cyflwr. Darparwyd diweddariadau a chynghor ar y wefan ac roeddem ar gael drwy gydol yr amser i helpu gydag unrhyw ymholiadau, darparu gwiriadau budd-daliadau ac ati. Er i ni orfod rhoi'r gorau i ymweld â chartrefi, gwnaethom addasu i gynnig y gwasanaethau llesiant a chwnsela, er o bell, dros y ffôn, ar Teams neu alwadau Skype.

Ymchwiliad Cyhoeddus – Yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig

Mae hwn yn ymchwiliad statudol cyhoeddus annibynnol a sefydlwyd i archwilio'r amgylchiadau lle rhoddwyd gwaed heintiedig a chynhyrchion gwaed heintiedig i ddynion, menywod a phlant a gafodd eu trin gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y DU, yn enwedig ers 1970.

Yn 2020/2021, gwnaethom ymateb i 3 chais Rheol 9 arall gan yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig. Y trydydd cais a dderbyniwyd ym mis Medi 2020 oedd y cais mwyaf manwl am ddatganiad tyst gan Alison Ramsey, Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg PCGC, cyn iddi ymddangos yn yr ymchwiliad ym mis Mai 2021.

<https://www.infectedbloodinquiry.org.uk/evidence/transcript-london-thursday-20-may-2021-vaughan-gething-and-alison-ramsey>

Fe wnaeth ymchwilio i'r wybodaeth i'w chynnwys yn y datganiad tyst roi cyfle i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru bwyso a mesur, adolygu ein holl weithdrefnau, dogfennau, sianeli cyfathrebu ac ati. Nododd yr adolygiad rai meysydd lle'r oedd angen i n ddiweddarau ein cyngor a'n harweiniad i adlewyrchu'r gwasanaeth yn well a rhai ffyrdd y gallem wella'r gwasanaeth a ddarparwn.

Roedd y rhain yn cynnwys sicrhau bod yr holl ddogfennau'n gyson a bod yr holl weithdrefnau newydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau staff. Rydym wedi llunio rhestr o eitemau y byddwn yn mynd i'r afael â nhw ac ar hyn o bryd rydym yn gweithio drwyddi er mwyn adolygu a golygu'r holl ddogfennau.

Materion allweddol a gododd yn ystod 2020-21

Cydraddoldeb ar draws pedair gwlad y DU

Pan sefydlwyd y pedwar cynllun gwaed heintiedig datganoledig yn 2017, roedd tair o'r pedair yn gweithredu telerau a chyfraddau taliadau tebyg i gryn raddau. Mabwysiadodd yr Alban fodel ychydig yn wahanol. Cyflwynodd Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru wasanaeth hawliau lles, nad oedd gan y cynlluniau eraill, ond roedd y cyfraddau taliadau yn debyg i'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Fodd bynnag, ar 1 Ebrill 2019, sef diwrnod cyntaf yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid ychwanegol ar gyfer cynllun Lloegr, a oedd yn caniatáu iddynt gynyddu'n sylweddol y cyfraddau taliadau i'w buddiolwyr'. Gan na dderbyniodd Llywodraeth Cymru unrhyw gyllid ychwanegol, nid oeddent yn gallu cynyddu'r cyfraddau taliadau ar gyfer Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru.

Achosodd hyn lawer o straen a gofid i'n buddiolwyr, ac fe wnaethom gyfleu hyn i Lywodraeth Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2020, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni ddarparu costau manwl o beth fyddai cydraddoldeb yn costio. Darparwyd costau ar gyfer amrywiaeth o senarios. Ym mis Mawrth 2021, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni ddarparu ffigurau wedi'u diweddarau ar frys. Roeddem hefyd yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion o'r pedair gwlad ac o gynlluniau eraill ledled y DU lle trafodwyd manylion posibl cytundeb cydraddoldeb. Ar 24 Mawrth 2021, cyhoeddodd Vaughan Gething fod cytundeb ar gydraddoldeb wedi'i wneud ac y byddai taliadau'n cael eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn galendr (Rhagfyr 2021).

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gwaed-heintiedig-y-diweddaraf-ar-gydraddoldeb-ariannol>

Roedd yn nodi bod Trysorlys y DU wedi cyhoeddi y byddant yn ariannu nifer o newidiadau i gynlluniau'r 4 gwlad i weithio tuag at gydraddoldeb. Bydd y cyllid hwn yn cael ei ôl-ddyddio i fis Ebrill 2019.

buddiolwyr

I'n buddiolwyr sydd ar hyn o bryd yn derbyn taliadau ex-gratia a ddarperir drwy ein partneriaid yng Nghynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, bydd y cynllun yn cael ei newid fel a ganlyn:

- Bydd taliadau ex-gratia blynyddol rheolaidd yn cynyddu i'r cyfraddau a gaiff eu talu ar hyn o bryd yn yr Alban a Lloegr.
- Bydd taliadau ar gyfer partneriaid mewn profedigaeth yn cynyddu i 100% o daliad y buddiolwyr ym mlwyddyn 1, a 75% ym mlwyddyn 2 a blynyddoedd dilynol, yn unol â'r sefyllfa yn yr Alban;
- Bydd yr holl daliadau uchod yn cael eu dyddio'n ôl i fis Ebrill 2019
- Bydd cyfandaliad i fuddiolwr Hepatitis C Cam 1 yn cynyddu o £20,000 i £50,000, gyda'r £20,000 ychwanegol yn daladwy os bydd buddiolwr cam 1 yn symud i gam 2. Mae cyfanswm y cyfandaliad sy'n daladwy i fuddiolwyr Hepatitis C yn parhau yn £70,000. Bydd hyn yn unol â'r Alban ac yn cael ei ôl-ddyddio i fis Ebrill 2017.
- Bydd cyfandaliadau ar gyfer HIV (£80,500) yn newid i gyd-fynd â Lloegr, a chânt eu hôl-ddyddio i fis Ebrill 2017.
- Caiff taliadau tanwydd gaeaf eu talu yn ogystal o fis Ebrill 2021 ymlaen.

Bydd cynlluniau eraill y DU bellach yn dilyn ein harweiniad ni drwy dalu'r budd-dal marwolaeth o £10,000 pan fydd buddiolwr yn marw.

Ar hyn o bryd, mae Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn aros am Gyfarwyddiadau diwygiedig gan Lywodraeth Cymru i'n galluogi i dalu'r cyfraddau diwygiedig ac i gyflwyno taliadau parhaus i briod/partneriaid mewn profedigaeth.



Grwpiau Llywodraethu

Mae'r Grŵp Llywodraethu yn monitro rheolaeth weithredol Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru ac yn darparu llywodraethiant, arweiniad ac atebolrwydd ar gyfer y cynllun, ar ran Llywodraeth Cymru drwy Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Mae Grŵp Llywodraethu Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru (Canolfan Ganser Felindre a PCGC) wedi'i awdurdodi i:

- Ymchwilio neu orchymyn ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei Gylch Gorchwyl, ac wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn, bydd ganddo'r hawl, ar bob adeg resymol, i archwilio unrhyw lyfrau, cofnodion neu ddogfennau'r Ymddiriedolaeth, sy'n berthnasol i gylch gwaith y Timau Llywodraethu, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodir gan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Gall ofyn am unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arno gan unrhyw gyflogai, a chyfeirir pob cyflogai i gydweithredu ag unrhyw gais rhesymol a wneir gan y Bwrdd.

Mae wedi'i rymuso gyda'r cyfrifoldeb am:

- Adolygu a chynghori ar reoli cyllidebau Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, gan gynnwys costau cynnal, cyllidebau a darpariaethau blynyddol y buddiolwyr
- Cynghori Llywodraeth Cymru ar newidiadau i gyfraddau a goblygiadau ariannol a gwasanaeth posibl newidiadau polisi, yng Nghymru ac mewn ardaloedd eraill o fewn y DU
- Gweithredu polisi Llywodraeth Cymru
- Trafodaethau parhaus a phartneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth.

Grwpiau Llywodraethu

Mae aelodaeth Grŵp Llywodraethu Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru fel a ganlyn:-

- Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol, Ymddiriedolaeth GIG Felindre (Cadeirydd)
 - Pennaeth Gweithrediadau, Canolfan Ganser Felindre
 - Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, PCGC
 - Rheolwr Gwasanaethau Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru
- Cynrychiolydd Cyllid Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd Polisi Llywodraeth Cymru
 - Uwch Reolwr Hawliau Lles
 - Seicolegydd Ymgynghorol
 - Defnyddiwr Gwasanaeth

Nid oes cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth gan y Grŵp ar hyn o bryd, ond mae hwn yn fater rydym yn ceisio mynd i'r afael ag ef.

Yn 2020/21, gwnaeth y Grŵp Llywodraethu gyfarfod ar 7 Gorffennaf a 10 Rhagfyr 2020 a 21 Mawrth 2021.




Cymorth ariannol

Mae'r cynllun yn cydnabod bod unigolion sy'n byw gyda hepatitis C a/neu HIV yn wynebu costau ychwanegol ar gyfer pethau fel yswiriant, yswiriant teithio, costau gofal a chostau teithio i fynd i apwyntiadau ysbyty ac ati. Mae cymorth ariannol ar gael ar gyfer:

- Ymgeiswyr Newydd i'r cynllun
- Aelodau o gynlluniau etifeddiaeth blaenorol

Mae lefelau amrywiol o gymorth ariannol ar gael i fuddiolwyr y cynllun:



Cymorth ariannol

Hepatitis C Cam 1

ar gyfer y rhai sydd wedi'u heintio â hepatitis C o ganlyniad i driniaeth gyda gwaed, cynhyrchion gwaed neu feinwe'r GIG.

Taliadau Cam 1+ Uwch

ar gyfer buddiolwyr Cyfnod 1 y mae eu haint, ei driniaeth, neu amodau cysylltiedig, yn cael effaith negyddol hirdymor ar eu gallu i gynnal gweithgareddau dyddiol, ond nid yw'n Gam 2.

Hepatitis C Cam 2

Ar gyfer y buddiolwyr hynny sydd â

- sirosis
- Canser Sylfaenol yr Iau
- Lymffoma Cell-B nad yw'n Lymffoma Hodgkin
- wedi cael trawsblaniad iau, neu ar y rhestr aros i dderbyn un

Taliadau HIV a chyd-heintiedig

ar gyfer y rhai sydd wedi'u heintio â HIV o ganlyniad i driniaeth y GIG cyn mis Hydref 1985 neu sydd wedi'u cyd-heintio â HIV a Hepatitis C Cam 1 neu 2.

Taliadau priod/partneriaid mewn profedigaeth

ar gyfer y rhai sy'n briod/partner i fuddiolwr ymadawedig a oedd yn bodloni un o'r meini prawf uchod.

Taliadau profedigaeth

a delir i briod/partner mewn profedigaeth neu ystâd buddiolwr, ar farwolaeth y buddiolwr i gynorthwyo gyda chostau angladd, ac ati.

Taliadau Grant Bach yn ôl Disgresiwn

cymorth ariannol y gall y buddiolwr a'r priod/partneriaid mewn profedigaeth wneud cais amdano er mwyn cynorthwyo gyda chost eitemau neu wasanaethau hanfodol. Fel arfer, dim ond i dalu am gostau eitemau neu wasanaethau sydd eu hangen, o leiaf yn anuniongyrchol, o ganlyniad i effeithiau haint hepatitis C neu HIV y buddiolwr y bydd y grantiau ar gael.

Cymorth ariannol

Y Broses Ymgeisio

Gellir gwneud ceisiadau ar gyfer pob un o'r elfennau cymorth ariannol drwy lawrlwytho'r ffurflen gais briodol ar <https://wibss.wales.nhs.uk/cy/> <http://www.wibss.nhs.uk/neu> drwy gysylltu â thîm cymorth Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, a fydd yn anfon ffurflen gais os yw'n well gennych.

Ar ôl derbyn cais, caiff ei gofnodi yn ein cofrestr ymgeisio, caiff ei wirio i sicrhau bod yr holl adrannau gofynnol wedi cael eu cwblhau gan y person perthnasol. Rydym hefyd yn gwirio a ddarparwyd y dystiolaeth ofynnol o driniaeth gyda chynhyrchion gwaed. Lle nad yw hynny wedi'i wneud, byddai'r tîm lles yn cysylltu â'r ymgeisydd ac yn gofyn am ganiatâd i chwilio am godio clinigol, i weld a all hynny ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol.

Bydd y tîm cymorth lles hefyd yn cynnig help ac arweiniad ar lenwi'r ffurflenni os oes angen hynny.

Unwaith y bydd y cais wedi'i gwblhau a'i gyflwyno, bydd Rheolwr Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn ystyried y cais yn seiliedig ar feini prawf a nodir yng nghanllawiau'r staff ac yn darparu argymhelliad i'r Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg yn PCGC ynghylch a ddylid cymeradwyo'r cais. Mewn rhai amgylchiadau, gall Rheolwr Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru ofyn am eglurder ar y farn feddygol a geir yn y ffurflen gais.

Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd y Rheolwr Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn ysgrifennu at yr ymgeisydd i'w hysbysu o'r canlyniad ac yn eu croesawu i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru.

Os na fydd yn llwyddiannus, bydd Rheolwr Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn ysgrifennu at yr ymgeisydd yn nodi'r rhesymau pam nad oedd y cais yn llwyddiannus ac yn eu hysbysu bod ganddynt hawl i apelio ac yn egluro'r broses apelio.

Y Broses Apelio

Os bydd cais i ymuno â'r cynllun yn aflwyddiannus, gall ymgeisydd apelio os yw'n anghytuno â chanlyniad ei gais. Caiff apeliadau eu clywed gan banel o arbenigwyr meddygol annibynnol sydd â phrofiad clinigol perthnasol neu debyg yn y maes.

Yn ystod 2020-21, ni chyflwynwyd unrhyw apeliadau ac felly ni chafodd y panel apêl ei gynnull.

Ni fydd apêl yn cael ei hystyried mewn achosion lle cydnabyddir nad yw'r ymgeisydd yn gymwys o dan y meini prawf cymhwysedd presennol, ond mae'r ymgeisydd yn anghytuno â'r meini prawf hynny (mewn achosion o'r fath, dim ond os cytunodd Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r meini prawf cymhwysedd y gellid ailystyried y cais).

Nid yw proses y panel apêl yn cynnwys apeliadau ynghylch y broses Grantiau Bach yn ôl Disgresiwn. Hyd yma nid ydym wedi gwrthod unrhyw geisiadau am grant bach. Ar ddechrau Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, nid oeddem yn credu bod proses apelio ffurfiol yn gymesur o ystyried gwerth y grantiau hyn. Cwestiynwyd hyn yn ystod yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig ac felly rydym yn bwriadu cyflwyno system lai ffurfiol o ailystyried ceisiadau a wrthodwyd am grantiau bach.

Byddai'r dull arfaethedig yn caniatáu i ymgeisydd sy'n anhapus â chanlyniad eu cais am grant, ei ailgyflwyno i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru i'w ailystyried. Byddai Rheolwr Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn trefnu i'r penderfyniad gael ei ystyried gan rywun sy'n annibynnol ar y broses benderfynu wreiddiol. Fel rhan o'n hadolygiad cyffredinol o'n dogfennaeth a'n canllawiau, byddwn yn diwygio'r adran grantiau bach i adlewyrchu'r newidiadau hyn.



Gwasanaeth Hawliau Lles

Y Broses Ymgeisio

Rydym yn cydnabod y gall anghenion buddiolwyr ymestyn ymhellach na chymorth ariannol yn unig ac felly rydym yn cynnig gwasanaeth hawliau lles arbenigol. Mae hyn wedi esblygu'n ddau faes penodol, cymorth gweithwyr allweddol a'r rôl hawliau lles.

Mae cymorth gweithiwr allweddol yn cynnwys:

- Cysylltu â buddiolwyr ac aelodau ehangach o'r teulu er mwyn sefydlu perthynas ymddiriedus a darparu cymorth emosiynol, y tu allan i atgyfeiriadau seicoleg a llesiant ffurfiol
- Cysylltu'n rheolaidd â buddiolwyr sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed
- Cwblhau gwaith papur a helpu i ddatrys materion i'r rhai nad ydynt yn gallu gwneud hynny eu hunain.

Mae'r gwasanaeth hawliau lles a gynigiwn wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer yr unigolyn a'i deulu. Er nad yw'n hollgynhwysfawr, dyma restr o'r gwasanaethau y gallen ni helpu â nhw, o bosibl:

- cysylltu â gweithwyr cymdeithasol i sicrhau bod anghenion buddiolwyr cymhleth yn cael eu diwallu
- cyfeirio gwasanaethau gofal deintyddol a phresgripsiwn am ddim y GIG i'r rhai sy'n gymwys oherwydd yr hawl newydd i fudd-daliadau
- mynd ar drywydd gweithwyr meddygol proffesiynol i gael tystiolaeth i gefnogi ceisiadau i ymuno â Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru
- Cwblhau gwiriadau budd-daliadau a lles, cyfeirio ynglŷn â dyledion, cyngor cyllidebu, trin cynhyrchion ariannol ac ati.
- Gwneud cais am fathodyn parcio (Bathodyn Glas), teithio am ddim ar fysiau a chonsesiynau.
- Dod o hyd i wasanaethau iechyd, megis cymorth gydag anghenion gofal ychwanegol a chlodiant gofal iechyd.

Rydym hefyd yn cydnabod bod iechyd buddiolwr nid yn unig yn effeithio arnynt, ond gall hefyd gael effaith sylweddol ar y rhai sy'n gofalu amdanynt. Gall ein cynghorwyr hawliau lles hefyd ystyried amgylchiadau teuluoedd a gofalcwyr uniongyrchol i wirio eu hawl i fudd-daliadau a allai helpu i wella amgylchiadau ariannol cyffredinol a mynediad at ofynion cymorth ychwanegol. Mae gan y tîm achrediad o dan y Safon Ansawdd Cyngor (AQS), ac yn unigol mae pob cynghorydd yn ymgymryd ag addysg broffesiynol barhaus gyda darparwyr hyfforddiant lles arbenigol.

Ym mis Awst 2020, sefydlodd y tîm hawliau lles gyswllt allweddol o fewn tîm polisi'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sydd wedi cytuno i oruchwyllo achosion yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cael eu heffeithio gan gyllid Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru.

Mae'r tîm hawliau lles wedi ymyrryd ar ran nifer o fuddiolwyr a gafodd eu cyfweld dan rybudd gan Dîm Twyll yr Adran Gwaith a Phensiynau. Nid oedd y buddiolwyr hyn, yn gywir, wedi datgan eu taliadau a dderbyniwyd o gynlluniau gwaed heintiedig etifeddol cymeradwy cyn Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. Mae'r tîm hefyd wedi ymyrryd lle'r oedd ceisiadau newydd am fudd-daliadau, megis credyd pensiwn a Chredyd Cynhwysol wedi'u gwrthod oherwydd arian a dalwyd o Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru a chynlluniau etifeddiaeth. Datryswyd pob mater yn dilyn ymyrraeth gan y cynghorwyr hawliau lles.

Gwasanaeth Hawliau Lles

Astudiaeth Achos

Buddiolwr C1

Roedd diweddar ŵr C1 yn fuddiolwr Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru a fu farw'n anffodus. O ganlyniad, gadawyd C1 i reoli cyllid y cartref am y tro cyntaf ac roedd yn ei chael hi'n anodd. Cysylltodd â'r tîm hawliau lles pan ddywedwyd wrthi na allai hawlio Credyd Pensiwn, er bod ganddi hawl sylfaenol, a oedd wedi'i diddymu oherwydd arian a gafodd gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hawliau Lles y mater i dîm Llunio Polisi'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), gan fanylu ar y ddeddfwriaeth a ganiataodd i gronfeydd Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru gael eu diystyru wrth gyfrifo hawl C1.

O ganlyniad i'r ymyrraeth hon, dyfarnwyd ei Chredyd Pensiwn i C1 ac fe'i hôl-ddyddiwyd i ddyddiad ei chais gwreiddiol. Nododd y Cynghorydd Hawliau Lles hefyd fod C1 bellach yn gymwys i dalu llai o dreth gyngor a phrofion llygaid, gofal deintyddol am ddim a chonsesiynau teithio. Dywedodd C1 fod y gwasanaeth hawliau lles wedi lleddfu rhywfaint o'i straen yn ystod ei chyfnod o alar ac roedd yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth.

Arweiniodd y mater hwn, a materion blaenorol tebyg, at sefydlu'r cyswllt allweddol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau y cyfeiriwyd ato uchod.

Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant Emosiynol

Yn ystod 2019-20, sefydlwyd gwasanaeth seicolegol a llesiant emosiynol yn benodol ar gyfer Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru o fis Ionawr 2020, mae unigolion sydd wedi cofrestru gyda Chynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru, ynghyd ag aelodau o'u teuluoedd ac aelodau o deuluoedd sydd mewn profedigaeth wedi gallu cael asesiad a thriniaeth seicolegol yn ymwneud â'r anawsterau emosiynol o dderbyn a byw gyda diagnosis o Hepatitis C a/neu HIV.

Mae'r tîm yn ymwybodol o'r cyd-destun hanesyddol ac mae ganddynt brofiad o weithio gyda'r anawsterau emosiynol sy'n bodoli o ganlyniad. Mae'r gwasanaeth seicolegol arbenigol hwn, yn cydnabod cymhlethdod corfforol a seicolegol a'r effaith ar ansawdd bywyd a pherthnasoedd.

Mae cyflwyno'r tîm seicolegol a llesiant emosiynol wedi caniatáu i Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru gynnig lefel ychwanegol o gymorth i fuddiolwyr.

Mae tua 60 o gleientiaid ar hyn o bryd yn cael ymyrraeth seicolegol gan Gynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru. Hyd yma rydym wedi gallu cynnig asesiad ac ymyrraeth i'r holl fuddiolwyr ac aelodau o'u teuluoedd sydd wedi hunangyfeirio neu wedi cael eu cyfeirio at y gwasanaeth. Ar hyn o bryd, nid oes nifer penodol o sesiynau'n cael eu cynnig. Rydym yn gweithredu gwasanaeth hyblyg sy'n adlewyrchu angen y cleient penodol.

Mae'r adborth rydym wedi'i dderbyn am y gwasanaeth yn gadarnhaol iawn. Mae hyblygrwydd y gwasanaeth wedi creu argraff ar y bobl a wnaeth ganfod bod siarad â therapydd sy'n ymwybodol o'r cyd-destun arbenigol a'r materion penodol y maent yn eu hwynebu yn ddefnyddiol.

Yn ystod y pandemig, mae'r tîm wedi parhau i gynnig y gwasanaeth dros y ffôn / drwy alwadau fideo neu wyneb yn wyneb, fel y dymunir. Tynnodd y tîm sylw at y ffaith bod y thema diffyg cydraddoldeb yn gyffredin yn eu gwaith clinigol ac nid yn unig oherwydd y gwahaniaeth mewn taliadau ariannol ar draws y cynlluniau. Roedd ymwybyddiaeth gynyddol bod y diffyg cydraddoldeb yn ysgogi ac yn atgyfnerthu teimladau o ddicter a drwgdybiaeth o'r llywodraeth a'r GIG ac amheuan ynglŷn â sut yr oedd yr achosion/ymchwiliad Gwaed Heintiedig yn cael eu rheoli. Roedd y tîm seicoleg a llesiant emosiynol yn sylwi bod materion o'r fath yn achosi niwed seicolegol eilaidd a pharhaus i rai pobl, ac roedd rhywfaint o dystiolaeth bod rhai'n cael eu dal o fewn ymateb trauma ac yn methu â chymryd rhan mewn therapi ystyrlon yn ymwneud â'u profiad gwaed heintiedig tra bod y broblem cydraddoldeb yn dal heb ei datrys.

Ysgrifennodd y Seicolegydd Clinigol, Caroline Coffey, at Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at faint o straen yr oedd cydraddoldeb yn ei achosi i fuddiolwyr, gan dynnu sylw at y ffaith bod y straen a achoswyd gan y mater hwn yn atal pobl rhag gallu delio'n effeithiol â materion cysylltiedig eraill yr oeddent yn eu hwynebu. Darllenwyd y llythyr hwn hefyd yn ystod yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig a phrofodd i fod yn ddarn pwerus iawn o dystiolaeth, yn dangos yr effaith ar fuddiolwyr.

Mae'r tîm seicoleg a llesiant emosiynol yn bwriadu cynnal digwyddiad ar-lein i'r holl fuddiolwyr ac aelodau o'r teuluoedd i drafod yn agored y dyhead i gynnig gymorth/ymyrraeth ar lefel gymunedol/grŵp os oes angen, ond hoffai'r tîm gael mewnbwn uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar yr hyn o ran beth fyddai'n briodol ac yn ddefnyddiol. Trafodir themâu teimlo'n ynysig, wedi gwahanu ac yn wahanol i eraill yn aml yn y gwaith clinigol, sy'n cefnogi'r syniad o gynnwys grwpiau/cymunedau ond mae sut i gynnig y dull hwn yn gymhleth ac mae angen meddwl a chynllunio.

Trafododd y tîm seicoleg a llesiant emosiynol y posibilrwydd y bydd buddiolwyr/cleientiaid yn ysgrifennu tystebau am eu profiad o ymgysylltu â'r gwasanaeth arbenigol ac effaith y gwaith therapiwtig. Roedd sawl cleient yn awyddus i ysgrifennu a bu'r broses o fynegi eu profiad hefyd yn therapiwtig iddynt. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gyfieithiad Cymraeg cyn y gellir eu huwchlwytho i'r wefan.



Gwasanaeth Seicoleg a Llesiant Emosiynol

Roedd ymwybyddiaeth gynyddol bod y diffyg cydraddoldeb yn ysgogi ac yn atgyfnerthu teimladau o ddicter a drwgdybiaeth am y llywodraeth a'r GIG ac amheuon ynghylch sut roedd yr achosion/ymchwiliad Gwaed Heintiedig yn cael eu rheoli. Roedd y tîm seicoleg a llesiant emosiynol yn sylwi bod materion o'r fath yn achosi anafiadau seicolegol eilaidd a pharhaus i rai pobl, ac roedd peth tystiolaeth bod rhai yn cael eu dal o fewn ymateb trauma ac yn methu â chymryd rhan mewn therapi ystyrlon yn ymwneud â'u profiad gwaed heintiedig tra bod y mater cydraddoldeb yn parhau i fod heb ei ddatrys.

Ysgrifennodd y Seicolegydd Clinigol, Caroline Coffey, at Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at faint o straen yr oedd cydraddoldeb yn ei achosi i fuddiolwyr, gan dynnu sylw at y ffaith bod y straen a achoswyd gan y mater hwn yn atal pobl rhag gallu delio'n effeithiol â materion cysylltiedig eraill yr oeddent yn eu hwynebu. Darllenwyd y llythyr hwn hefyd yn ystod yr Ymchwiliad Gwaed Heintiedig a phrofodd i fod yn ddarn pwerus iawn o dystiolaeth, yn dangos yr effaith ar fuddiolwyr.

Mae'r tîm seicoleg a llesiant emosiynol yn bwriadu cynnal digwyddiad ar-lein i'r holl fuddiolwyr ac aelodau o'r teuluoedd i drafod yn agored y dyhead i gynnig cymorth/ymyrraeth ar lefel gymunedol/grŵp os oes angen, ond hoffai'r tîm gael mewnbwn uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar yr hyn o ran beth fyddai'n briodol ac yn ddefnyddiol. Trafodir themâu teimlo'n ynysig, wedi gwahanu ac yn wahanol i eraill yn aml yn y gwaith clinigol, sy'n cefnogi'r syniad o gynnwys grwpiau/cymunedau ond mae sut i gynnig y dull hwn yn gymhleth ac mae angen meddwl a chynllunio.

Trafododd y tîm seicoleg a llesiant emosiynol y posibilrwydd y bydd buddiolwyr/cleientiaid yn ysgrifennu tystebau am eu profiad o ymgysylltu â'r gwasanaeth arbenigol ac effaith y gwaith therapiwtig. Roedd sawl cleient yn awyddus i ysgrifennu a bu'r broses o fynegi eu profiad hefyd yn therapiwtig iddynt. Ar hyn o bryd rydym yn aros am gyfieithiad Cymraeg cyn y gellir eu huwchlwytho i'r wefan.

Gweithgaredd buddiolwyr 2020-21

Mae 213 o fuddiolwyr a phartneriaid mewn profedigaeth wedi'u cofrestru i gael cymorth drwy'r cynllun. Mae hyn wedi'i rannu'n grwpiau canlynol. (Yn ddilys ar 31 Mawrth 2021).

Grŵp Buddiolwyr	Nifer y Buddiolwyr cofrestredig
Hepatitis C Cam 1	36
Hepatitis C Cam 1+ Uwch	79
Hepatitis C Cam 2	41
Gweddwr Hepatitis C	2*
HIV	2
HIV a Hep C Cam 1 (Cyd-heintiedig)	3
HIV a Cham 1+ Uwch (Cyd-heintiedig)	11
HIV a Hep C Cam 2	2
Priod/partner mewn profedigaeth	37

*Dosberthir dau bartner mewn profedigaeth o dan ein cynllun presennol o fuddiolwyr sy'n derbyn taliadau gweddwr parhaus ac o dan y cyfanswm profedigaeth.

buddiolwyr

Cyfraddau Taliadau 2020-21

Nodir lefelau'r taliadau sydd ar gael i fuddiolwyr yn 2020/21 yn y tabl isod.

Grŵp Buddiolwyr	Taliadau Blynnyddol
Hepatitis C Cam 1	4,790
Hepatitis C Cam 1+ Uwch	19,172
Hepatitis C Cam 2	19,172
HIV	19,172
HIV a Hep C Cam 1 (Cyd-heintiedig)	23,317
HIV a Cham 1+ Uwch (Cyd-heintiedig)	37,826
HIV a Hep C Cam 2 (Cyd-heintiedig)	37,826

Mae Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn talu taliadau blynnyddol yn fisol neu'n chwarterol, yn dibynnu ar ddewis y buddiolwr. Gwneir taliadau ar yr 20fed o'r mis. Os bydd yr 20fed yn disgyn ar wyliau banc neu benwythnos, bydd y taliad yn dod y diwrnod gwaith agosaf cyn yr 20fed.

Telir taliadau cyfandaliad untro nad ydynt yn ôl disgrisiwn hefyd i ymgeiswyr newydd llwyddiannus i'r cynllun. Byddai gan ymgeisydd newydd sy'n Hep C Cam 1 neu HIV hawl i gyfandaliad o £20,000. Byddai buddiolwr sy'n symud o Hep C Cam 1 i Hep C Cam 2 yn cael cyfandaliad ychwanegol o £50,000. Byddai ymgeisydd newydd sydd eisoes wedi datblygu i Hepatitis C Cam 2 yn derbyn £70,000.

Telir cyfandaliad untro o £10,000 hefyd i briod/partner/perthynas dibynnol mewn profedigaeth neu ystâd buddiolwr ymadawedig i gynorthwyo gyda chostau angladd.

Hefyd, mae Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn gwneud taliadau rheolaidd nad ydynt yn ôl disgrisiwn i briod/partneriaid/perthynas dibynnol mewn profedigaeth, sy'n hafal i 75% o'r gyfradd yr oedd y buddiolwr ymadawedig arni ar adeg y farwolaeth. Telir y taliadau hyn am 3 blynedd o ddyddiad y farwolaeth.

Strwythur Cynllun Cynorthwyo

Gwaed Heintiedig Cymru

Mae prif dîm WIBSS yn cynnwys wyth aelod o staff, dan arweiniad Rheolwr WIBSS.

Alison Ramsey

Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a
Gwybodeg PCGC

Lisa Miller

Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Canolfan Ganser Felindre

Mary Swiffen-Walker

Rheolwr WIBSS

Seicoleg a Lles

Caroline Coffey

Seicolegydd Clinigol

Cyllid

Stefan Dakovic

Swyddog Cyllid

Hawliau Lles

Hayley Price

Rheolwr Hawliau Lles,
Dirprwy Reolwr WIBSS

Julie Armytage

Cwnselydd

Rebecca O'Callaghan

Cwnselydd

Sarah Ferrier

Cynghorydd Hawliau Lles

Cefnogaeth Weinyddol

Ryan Clappe

Swyddog Cymorth

Adroddiad Cyllid

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwariant ar hawliadau ar gyfer 2020-21 gyda ffigyrau cymharol 2019-20. Mae'r costau hyn yn cynnwys taliadau ad-hoc, gweddwon a grantiau bach.

Gwariant Hawliadau Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru	2020/21	Cymhariaeth â 2019-20
Nifer y Buddiolwyr	176	175
Taliadau rheolaidd i fuddiolwyr	£3,382,927	£2,919,251

Noder bod y ffigurau uchod wedi bod yn destun symudiadau yn ystod y flwyddyn h.y. ceisiadau newydd, marwolaethau yn ystod y flwyddyn, symudiadau o un cam i'r llall, ceisiadau ad hoc ac ati.

Mae PCGC yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Dîm Cyllid GIG Cymru o fewn Llywodraeth Cymru ar ragolygon drwy gydol y flwyddyn. Mae gweinyddu'r cynllun yn niwtral o ran cost i PCGC a Chanolfan Ganser Felindre, gyda Llywodraeth Cymru'n ariannu'r cynllun yn llawn.

Costau cynnal ar gyfer 2020/21

Nodir crynodeb o'r costau cynnal ar gyfer 2020-21 isod ynghyd â ffigyrau cymharol 2019-20:

Costau Cynnal Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru	2020/21	Cymhariaeth â 2019-20
Cyflogau	£218,749	£194,152*
Gwariant	£10,372	£6,270
Cyfanswm	£229,121	£200,422

*Noder nad yw gwariant costau cynnal 2019-20 yn gymhariaeth lawn â 2020-21 oherwydd cyflwyno'r tîm Seicoleg a Llesiant tua diwedd 2019. Mae 4 mis o gostau cyflogau wedi'u cynnwys yn 2019/20 o'i gymharu â gwariant blwyddyn lawn yn 2020/21.

Ceisiadau Newydd ar gyfer Cymorth Ariannol

Derbyniodd Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru 4 cais yn 2020/21.

Math o Gais	Ceisiadau a dderbyniwyd	Canlyniad
Hepatitis C Cam 1	1	Derbyniwyd
Cam 1+ Uwch	1	Derbyniwyd
Hepatitis C Cam 2	1	Derbyniwyd
Taliadau HIV	0	DDIM YN BERTHNASOL
Symud o Gam 1 i Gam 2	0	DDIM YN BERTHNASOL
Ceisiadau gan weddwon	1	Gwrthodwyd ond derbyniwyd ar ôl derbyn gwybodaeth ychwanegol
Cyfanswm	4	4 Derbyniwyd

Adroddiad Perfformiad

Nodir perfformiad Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol isod.

Disgrifiad o'r dangosydd perfformiad allweddol	Targed 20/21	Status
Ymateb i ohebiaeth o fewn terfynau amser penodol	O fewn 4 niwrnod gwaith	100%
Ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfynau amser gofynnol	Yn unol â pholisi'r Ymddiriedolaeth	100%
Delio â cheisiadau o fewn y terfynau amser gofynnol	O fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn gwybodaeth gyflawn	100%
Delio ag apeliadau o fewn terfynau amser gofynnol	Dim apeliadau	Dim apeliadau
Taliadau a wnaed yn amserol	100% o'r taliadau i'w gwneud 0-2 ddiwrnod cyn y dyddiad dyledus	100%
Cynghori Llywodraeth Cymru ar Godiadau CPIH a'r goblygiadau o ran costau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf	Ym mis Chwefror bob blwyddyn	100%

perfformiad

Adroddiad Perfformiad


Disgrifiad o'r dangosyddion hawliau lles allweddol (dim dangosyddion perfformiad allweddol ffurfiol wedi'u gosod.)	Statws
Cyfanswm yr achosion Hawliau Lles a agorwyd yn y 12 mis blaenorol	62
Nifer y Cyngor Gweithiwr Allweddol yn unig	34
Nifer y gwaith achos hawliau lles	28
Incwm a Gynhyrchwyd (Tachwedd 17 – Gorffennaf 2021)	£357,091.92
Canlyniadau sydd heb eu cwblhau Gorffennaf 2021	·1 Adnewyddiad Taliad Annibyniaeth Personol ·1 Ailystyriaeth orfodol Taliad Annibyniaeth Personol ·1 Hawliad Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ·1 Hawliad Budd-dal Tai ·1 hawliad Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor

perfformiad

Cynllun Grantiau Cymorth a Chynorthwyo

Yn 2020-21, gwnaethom dderbyn 6 chais am grant cymorth a chynorthwyo. Mae hyn yn is nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol. O siarad â'r buddiolwyr, mae'n ymddangos bod gan fuddiolwyr bryderon pwysicach ynghylch eu hiechyd a'u lles yn ymwneud â'r pandemig. Hefyd, yn ymarferol, roedd llawer o bobl yn cysgodi neu'n hunanynysu ac mae'n ddigon posibl nad ydynt wedi dymuno derbyn gweithwyr i'w cartrefi.

Bydd y Cylchlythyr nesaf yn cynnwys manylion y grantiau cymorth a chynorthwyo sydd ar gael i fuddiolwyr



Edrych Ymlaen

2021-2022

Y brif flaenoriaeth ar gyfer Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru yn 2021-2022 fydd gweithredu'r newidiadau a gyhoeddwyd yn y cytundeb cydraddoldeb a wnaed ar 25 Mawrth 2021.

Yn ogystal â hyn, bydd y cynllun gwaith hefyd yn cynnwys y canlynol –

- Cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sy'n nodi nodau ac amcanion gwasanaeth Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru ac sy'n cwmpasu arferion gwaith presennol Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru.
- Adolygu holl ddogfennau a chanllawiau Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru i sicrhau cysondeb a chywirdeb a sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r holl newidiadau a gyflwynwyd o ganlyniad i'r cytundeb cydraddoldeb.
- Adolygu a diweddarau gwefan Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru i adlewyrchu'r newidiadau cydraddoldeb a'i gwneud yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr.
- Cyhoeddi Arolwg Boddhad Cwsmeriaid i'r holl fuddiolwyr, gan gynnwys y gwŷr/gwragedd/partneriaid mewn profedigaeth, a gweithredu ar y canlyniadau.

Gweithio gyda'n tîm Seicoleg a Lles Emosiynol i nodi cyfleoedd ychwanegol i gefnogi buddiolwyr Cynllun Cynorthwyo Gwaed Heintiedig Cymru e.e., drwy grwpiau cymorth.